

**Ymateb Teyrnas Unedig Prydain Fawr a  
Gogledd Iwerddon 2019 i arsylwadau terfynol  
dethol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar  
Hawliau Pobl Anabl:  
Ymateb i'r argymhelliad ym mharagraff 74**

1. Dyma ymateb Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon i'r argymhelliad ym mharagraff 74 o'r arsylwadau terfynol<sup>1</sup> a wnaed gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRPD) yn dilyn adolygiad cyfnodol y DU yn 2017. Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â chanfyddiadau adroddiad ymchwiliad 2016 (cyf. y Cenhedloedd Unedig CRPD/C/15/4) a gynhaliwyd o dan erthygl 6 Protocol Dewisol y Confensiwn (OP-CRPD).<sup>2</sup>
2. Mae Llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, ynghyd â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn rhannu ymrwymiad i gefnogi a gwella bywydau pobl anabl. Mae'r ymateb hwn yn cynnig diweddariad ar bolisiau a gwasanaethau a gyflwynir yn genedlaethol, a pholisiau sydd wedi cael eu datganoli sy'n galluogi'r Gweinyddiaethau Datganoledig i adlewyrchu anghenion penodol eu poblogaethau.

## Argymhelliad 114a

Cynnal asesiad o effaith gronnol y mesurau a fabwysiadwyd ers 2010 y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad hwn<sup>3</sup>, mewn perthynas â hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned, a'u hawl i ddiogelwch cymdeithasol a chyflogaeth. Dylai parti'r Wladwriaeth sicrhau bod yr asesiad hwn yn seiliedig ar hawliau ac yn cynnwys pobl anabl a'u mudiadau cynrychiadol mewn modd ystyrlon.

3. Ers 2010, a chyda phob Cyllideb flynyddol, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dadansoddiad cronol o effeithiau ein polisiau treth, lles a gwariant cyhoeddus ar aelwydydd. Rydym hefyd yn cyhoeddi asesiadau o effaith newidiadau unigol i les a'r defnydd o gyllid cyhoeddus. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i edrych yn agos ar y materion methodolegol ynghylch dadansoddiad meintiol dosbarthiadol yn ôl nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys anabled, yn ogystal â gwella ei brosesau i ystyried effeithiau cydraddoldeb cyn yr Adolygiad nesaf o Wariant.
4. Am y deng mlynedd diwethaf mae Llywodraeth yr Alban wedi llunio asesiad o effaith ansoddol penderfyniadau cyllidebol yn erbyn yr holl nodweddion gwarchoddedig o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<sup>4</sup> Caiff y Datganiad Cydraddoldeb Cyllidebol hwn ei gyhoeddi bob blwyddyn ar y cyd â Chyllideb yr Alban. Mae gwaith newydd ar ddichonoldeb datblygu asesiad o effaith ansoddol a chronol gwariant yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

---

<sup>1</sup><http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2FPPRiCAqhKb7yhspCUnZhK1jU66fLQJyHlkqMIT3RDaLiqzhH8tVNxhro6S657eVNwuqlzu0xvsQUehREyYEQD%2BldQaLP31QDpRcmG35KYFtgGyAN%2BaB7cyky7>

<sup>2</sup>[https://tbinternet.ohchr.org/\\_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2f15%2f4&Lang=en](https://tbinternet.ohchr.org/_layouts/15/treatybodyexternal/Download.aspx?symbolno=CRPD%2fC%2f15%2f4&Lang=en)

<sup>3</sup>adroddiad ymchwiliad 2016: <https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G17/326/14/PDF/G1732614.pdf?OpenElement>

<sup>4</sup><https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

5. Dros y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio dull gweithredu strategol ac integredig wrth gynnal asesiadau o effaith penderfyniadau cyllidebol, gan gwmpasu'r holl nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Caiff y rhain eu trafod yn yr Aseiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) a gyhoeddir fel rhan o'r ddogfennaeth am gyllideb Cymru.

## **Argymhelliad 114b**

Sicrhau bod unrhyw fesur arfaethedig yn yr agenda diwygio lles yn seiliedig ar hawliau, yn cynnal y model anabledd sy'n seiliedig ar hawliau dynol ac nad yw'n effeithio'n anghyfartal a/neu'n andwyol ar hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol, safon byw ddigonol a chyflogaeth. Er mwyn atal effeithiau andwyol o'r fath, dylai parti'r Wladwriaeth gynnal asesiadau effaith cronol yn seiliedig ar hawliau dynol o'r ystod lawn o fesurau arfaethedig a fyddai'n effeithio ar hawliau pobl anabl.

6. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 Prydain Fawr yn allweddol er mwyn diogelu pobl â'r holl nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys anabledd. Mae gan Ogledd Iwerddon Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.<sup>5</sup> Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus<sup>6</sup> (PSED) yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith polisïau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'n sicrhau y rhoddir sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth mewn polisïau ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal ac yn meithrin cydberthnasau da i bersonau sydd â nodweddion gwarchoddedig a phersonau heb nodweddion gwarchoddedig.
7. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos sut maent wedi ystyried materion cydraddoldeb wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu polisïau, gwasanaethau a phrosesau. Mae'n rhaid iddynt hefyd ddangos p'un a fydd y rhain yn cael effaith anfwriadol neu anghyfartal ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl, a rhoi pwyslais dyledus ar hyn wrth wneud penderfyniadau. Pan fydd dadansoddiadau cydraddoldeb yn nodi effeithiau anghyfartal ar bobl anabl, dylai sefydliadau ystyried opsiynau i ddileu neu leihau'r tebygolrwydd o ganlyniadau negyddol.
8. Diben y system les yn y DU yw rhoi cymorth ariannol i'r rheini sydd â'r angen mwyaf ac, o ganlyniad, rydym yn diwygio polisïau yn barhaus er mwyn sicrhau bod y system yn addas at y diben o hyd. Mae Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â phobl anabl i sicrhau bod opsiynau diwygio yn cael eu llywio gan amrywiaeth o safbwyntiau a thystiolaeth.

---

<sup>5</sup><http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/50/contents>

<sup>6</sup><http://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/2260/contents/made>

9. Mae effeithiau ar gydraddoldeb wedi cael eu hystyried mewn perthynas â phob newid mawr i'r system budd-daliadau newydd, sef Credyd Cynhwysol (UC). Nodwyd effaith UC ar bobl anabl yn glir yn yr asesiadau effaith/cydraddoldeb a gyhoeddwyd pan gafodd Deddf Diwygio Lles (Bil) 2012<sup>7</sup> ei phasio, a oedd yn cynnwys y ffordd y gwnaethom gynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, gwirfoddol a chyhoeddus ac ymgynghori â nhw.
10. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ymateb i bryderon mewn perthynas â'r Asesiad Gallu i Weithio (WCA). Asesiad gweithredol yw hwn sy'n ystyried ffactorau sy'n effeithio ar allu person i weithio neu gyflawni gweithgaredd cysylltiedig â gwaith. Nid yw'n seiliedig ar amodau ac mae'n pennu cymhwysedd ar gyfer y budd-daliadau yn lle incwm, sef Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a Chredyd Cynhwysol, sydd ag elfen iechyd hefyd.
11. Yn 2016, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) na fyddai'r Llywodraeth yn asesu pobl â'r cyflyrau gydol oes, mwyaf difrifol dro ar ôl tro ar gyfer ESA ac UC mwyach, oni bai y bydd newid mewn amgylchiadau. Crëwyd meini prawf ailasesu gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a rhanddeiliaid eraill.
12. Nod y budd-dal anabledd, sef y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), yw helpu i gyfrannu at y costau ychwanegol sy'n wynebu unigolion â'r rhwystrau mwyaf i gyfranogiad. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r DWP wedi darparu canllawiau cliriach er mwyn gwella profiad hawlwr, gan gynnwys darparu taliadau PIP parhaus i'r rheini sydd ar y gyfradd uchaf ac nad yw eu hanghenion yn debygol o newid, neu'r rheini sydd o oed Pensiwn y Wladwriaeth neu'n hŷn. Hefyd, er mwyn gwella tryloywder asesiadau PIP wyneb yn wyneb, mae DWP yn treialu recordiadau fideo. Yn ogystal, mae gan ddarparwyr asesu PIP Hyrwyddwyr Gweithrediad Meddyliol sy'n Weithwyr Iechyd Proffesiynol â phrofiad gwaith perthnasol o gefnogi cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Maent yn cynnig cyngor a chymorth i Weithwyr Iechyd Proffesiynol eraill sy'n asesu pobl sydd ag anableddau meddyliol, deallusol, gwybyddol neu ddatblygiadol.
13. Er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth yn parhau i ddarparu'r cymorth ariannol cywir i'r rheini sydd ei angen fwyaf, o 2021, bydd system les y DU yn creu gwasanaeth asesu iechyd integredig ar gyfer WCA a PIP. Gyda chaniatâd yr hawliwr, rydym yn chwilio am ffyrdd o rannu tystiolaeth ategol a gasglwyd mewn asesiadau PIP neu WCA blaenorol, gan ddileu dyblygu ac, mewn rhai achosion, yr angen i asesu, a sut i wella'r broses apelio i ymgeiswyr a gafodd eu gwrthod yn wreiddiol.

---

<sup>7</sup><http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/5/contents>

14. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd DWP yn cyflwyno Papur Gwyrdd ar gymorth iechyd ac anabledd er mwyn hwyluso sgwrs am greu system les ar gyfer y dyfodol sy'n cefnogi pobl anabl.
15. O 1 Ebrill 2019, mae canolfannau Cyngor ar Bopeth (Cymru a Lloegr) a Cyngor ar Bopeth yr Alban yn cyflwyno'r cyfleuster 'Help i Hawlio' newydd i hawlwrwyr sy'n cyflwyno cais newydd am UC neu sy'n symud o fudd-dal a etifeddwyd i UC oherwydd newid mewn amgylchiadau. Mae'r gwasanaeth annibynnol hwn yn cynnig cyngor wedi'i deilwra a chymorth ymarferol i bobl sy'n cwblhau eu cais am UC gan eu cynorthwyo i wneud eu taliad llawn cyntaf yn gywir ac ar amser. Mae cynghorwyr Help i Hawlio yn cyfeirio hawlwrwyr at wasanaethau cymorth eraill ac yn eu cysylltu â nhw pan fo angen. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael y cymorth y mae hawl ganddynt i'w gael. Bydd y gwasanaeth yn cael ei werthuso o hydref 2019.
16. Drwy Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (yr Alban), mae Llywodraeth yr Alban yn cymryd cyfrifoldeb dros amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys budd-daliadau anabledd. Mae Llywodraeth yr Alban wedi blaenoriaethu cymorth i ofalwyr yn y system nawdd cymdeithasol drwy gyflwyno'r Atodiad i'r Lwfans Gofalwr gyntaf. Ym mis Ebrill 2020, bydd Llywodraeth yr Alban yn cymryd cyfrifoldeb dros fudd-daliadau anabledd sy'n cydnabod costau ychwanegol byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd. Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, gellir aiddylunio meysydd er mwyn diwallu anghenion a nodir.
17. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw'r unigolion hynny sy'n dibynnu ar ofal cymdeithasol gartref i gefnogi eu bywyd pob dydd dan anfantais drwy fod ar incwm isel. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<sup>8</sup>, bydd y bobl sy'n gorfod talu am eu gofal cartref yn gallu cadw elfen allweddol o'u hincwm er mwyn talu am gostau eraill bywyd pob dydd.
18. Mae Gogledd Iwerddon yn darparu taliadau lles atodol i hawlwrwyr sy'n cael eu hailasesu o'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) i PIP ac yna'n derbyn llai o gymorth lles. Bydd y cynllun talu presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020; mae trafodaethau ynghylch parhau â'r cynllun yn mynd rhagddynt o hyd.
19. Yng Ngogledd Iwerddon, caiff dyfarniadau'r Gronfa Byw'n Annibynnol eu talu i dderbynwyr anabl sydd ag anghenion gofal dwys. Defnyddir y dyfarniad i dalu am staff asiantaeth gofal yn uniongyrchol, neu i dderbynwyr gyflogi eu cynorthwydd personol eu hunain. Yn 2018/19, darparodd y Gronfa Teuluoedd grantiau ar gyfer ystod o gymorth i deuluoedd â phlentyn anabl.

---

<sup>8</sup><https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh>

## Argymhelliad 114c

Sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig a/neu fesur polisi yn parchu elfennau craidd yr hawliau a ddadansoddwyd yn yr adroddiad hwn<sup>9</sup>: bod pobl ag anableddau yn cadw eu hymreolaeth, dewis a rheolaeth dros ble y maent yn byw a chyda phwy y maent yn byw; eu bod yn cael cymorth priodol ac unigoledig, gan gynnwys drwy gymorth personol, a'u bod yn cael mynediad at wasanaethau yn y gymuned ar sail gyfartal ag eraill; eu bod yn cael mynediad at gynlluniau nawdd cymdeithasol sy'n sicrhau y caiff incwm ei ddiogelu, gan gynnwys mewn perthynas â chost ychwanegol anabledd, sy'n gyson â safon byw ddigonol, a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn mewn cymdeithas; a'u bod yn cael mynediad at gyflogaeth yn y farchnad lafur agored ar sail gyfartal ag eraill, ac yn cael cymorth i wneud hyn.

20. Mae'r DU yn ymrwymedig i roi'r hawliau a nodir yn UNCRPD. Caiff yr hawliau hyn eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth a pholisi. Yn ogystal, fel yr esboniwyd yn ein hymateb i Argymhellid 114b, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 Gogledd Iwerddon hefyd yn diogelu pobl â'r holl nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys anabledd, ac yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith polisiau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.

### Cymorth Cyflogaeth

21. Nod Llywodraeth y DU yw cael miliwn yn fwy o bobl anabl mewn gwaith rhwng 2017 a 2027, fel y nodwyd yn *'Improving Lives: The Future of Work, Health and Disability'*<sup>10</sup> (cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017). Yn y ddwy flynedd gyntaf ers cyhoeddi'r dyhead hwn, mae nifer y bobl anabl mewn gwaith wedi cynyddu 404,000, gan wneud cyfanswm y bobl anabl mewn gwaith yn 3.9 miliwn. Mae'r Llywodraeth yn fodlon ar y cynnydd hwn ond mae am weld gwelliannau pellach.

22. Mae DWP yn cynnal rhaglenni i ddarparu cymorth cyflogaeth ac iechyd mwy personol ac wedi'i deilwra, er mwyn cynyddu cyflogaeth i bobl anabl, gan gynnwys:

- a) Pecyn Cymorth Personol i hawlwr ESA ac UC, a gyflwynwyd o fis Ebrill 2017, â'r nod o ehangu a gwella'r cymorth a gynigir i bobl anabl er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd â phobl eraill i elwa ar effeithiau cadarnhaol gwaith.

---

<sup>9</sup> adroddiad ymchwiliad 2016: <https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G17/326/14/PDF/G1732614.pdf?OpenElement>

<sup>10</sup><https://www.gov.uk/government/publications/improving-lives-the-future-of-work-health-and-disability>

- b) Mae'r rhaglen Gwaith ac Iechyd, yng Nghymru a Lloegr, yn cynnig mynediad gwirfoddol at gymorth cyflogaeth i oddeutu 220,000 o bobl anabl.
- c) Mae Mynediad i Waith (AtW) yn darparu cyngor a chymorth ymarferol i gyflogeion a'u cyflogwyr ar gyfer goresgyn rhwystrau yn y gweithle sy'n gysylltiedig ag anabledd. Nid yw AtW yn disodli dyletswydd cyflogwr i gynnig addasiadau rhesymol - dim ond cymorth sy'n mynd y tu hwnt i addasiadau rhesymol a gaiff ei ariannu gan y cynllun. Gall cwsmeriaid AtW bellach dderbyn dyfarniad gwerth hyd at £59,200<sup>11</sup> y flwyddyn i'w cefnogi i ddod o hyd i swydd neu gadw swydd a hefyd gael mynediad at Wasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl arbenigol. Yn 2017/18, cefnogwyd 34,000 o bobl gan AtW, y nifer uchaf erioed, a chynnydd o 13% ar y ffigur yn 2016/17. Yn 2017/18, cynyddodd gwariant AtW i £110.8 miliwn, cynnydd o 4% mewn termau real ar wariant 2016/17.
- d) O ddiwedd 2019, bydd mwy na £40m yn cael ei fuddsoddi mewn Rhaglen Cymorth Cyflogaeth Personol Ddwys newydd. Dros bedair blynedd bydd yn cefnogi 10,000 o bobl anabl sydd o leiaf blwyddyn i ffwrdd o ddod o hyd i waith.

23. Mae'r Cynllun Gwaith Da<sup>12</sup>, (cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018) yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer dyfodol marchnad lafur y DU, gan geisio cael cydbwysedd rhwng cefnogi hyblygrwydd y farchnad lafur a sicrhau hawliau gweithwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y DU farchnad lafur sy'n parhau i fod yn hyblyg, yn addasadwy ac yn addas at y diben.

24. Mae Llywodraeth y DU am wneud gweithio hyblyg yn arfer cyffredin gan fod dadansoddiadau presennol<sup>13</sup> yn dangos bod gweithwyr anabl yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser neu gael oriau/lleoliadau gwaith amrywiol. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch a ddylai cyflogwyr fod â dyletswydd i ystyried a ellir gwneud swydd yn hyblyg a gwneud hynny'n glir wrth hysbysebu rôl. Mae hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr mawr (y rhai sydd â 250 neu fwy o weithwyr) gyhoeddi eu polisiau absenoldeb a thâl a gweithio hyblyg sy'n gysylltiedig â theuluoedd. Mae gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Dasglu Gweithio Hyblyg gyda rhanddeiliaid perthnasol er mwyn cefnogi gweithio hyblyg.

25. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ym mis Mehefin 2019, bydd BEIS hefyd yn gwneud cynlluniau i weithio gydag adrannau, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid i

---

<sup>11</sup> Punnoedd Sterling (GBP)

<sup>12</sup><https://www.gov.uk/government/publications/good-work-plan>

<sup>13</sup><https://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/CBP-7540#fullreport>

wella canlyniadau cwsmeriaid i bobl anabl drwy ddatblygu matrices i gymharu pa mor dda y mae cwmnïau yn cyflawni ar gyfer cwsmeriaid anabl mewn marchnadoedd hanfodol.

26. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban *A Fairer Scotland for Disabled People: Employment Action Plan*<sup>14</sup>, a ddatblygwyd gyda rhanddeiliaid. Mae'n ymrwmo i o leiaf haneru bwlch cyflogaeth i bobl anabl yr Alban erbyn 2038. O ganlyniad, mae Llywodraeth yr Alban yn buddsoddi mewn amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys buddsoddi £96m mewn gwasanaeth cyflogi datganoledig: Fair Start Scotland. Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyhoeddi adroddiadau monitro a chynnydd blynyddol rheolaidd a fydd yn dangos cyfraddau cyflogaeth, galwedigaethau a lefelau cyflog pobl anabl.

### **Cymorth Lles**

27. Caiff gwybodaeth am ymagwedd Llywodraeth y DU tuag at nawdd cymdeithasol, gwariant a chost ychwanegol anabled ei thrafod yn ein hymatebion i argymhellion 114b ac 114d.

### **Cymorth Gofal Cymdeithasol**

28. Mae Llywodraeth y DU am wneud personoli yn rhywbeth safonol yn y system iechyd a gofal cymdeithasol, gyda hyd at 2.5 miliwn o bobl yn elwa ar ofal personol erbyn 2023-24 yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Yn wir, mae darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person yn elfen ganolog o Gynllun Hirdymor y GIG<sup>15</sup>, gyda ffocws allweddol ar yr unigolyn, eu gofalwr ac unrhyw berson arall ar gais yr unigolyn, gan eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r cynllun gofal personol a'i roi ar waith.

29. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth yn hyrwyddo Cyllidebau Iechyd Personol, gan roi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl anabl o ran y ffordd y caiff arian ei wario ar eu hanghenion iechyd a llesiant. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, caiff yr hawl gyfreithiol i gyllidebau iechyd personol ei hestyn i ddau grŵp arall o bobl, ar gyfer diwedd 2019 ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n gymwys i gael gwasanaeth ôl-ofal Adran 117 i bobl pan fyddant yn gadael yr ysbyty, sydd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983<sup>16</sup>. Gall gwasanaeth ôl-ofal Adran 117 gynnwys gofal iechyd, gofal cymdeithasol, gwasanaethau cyflogaeth a mwy; ar yr amod bod yr anghenion yn deillio o gyflwr meddyliol y person, neu'n gysylltiedig ag ef, ac yn helpu i leihau'r risg y bydd ei gyflwr meddyliol yn gwaethgu. Bydd y Llywodraeth hefyd yn estyn yr hawl gyfreithiol i gyllidebau iechyd personol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau

---

<sup>14</sup><https://www.gov.scot/publications/fairer-scotland-disabled-people-employment-action-plan/>

<sup>15</sup><https://www.longtermplan.nhs.uk/>

<sup>16</sup><https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/contents>



cadair olwyn y mae eu hanghenion ystum a symudedd yn effeithio ar eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

30. Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am ffyrdd o leihau dyblygu a darparu llwybr mwy cydlynol at ddarpariaeth gofal i unigolion. Yn hyn o beth, rydym yn treialu asesiadau ar y cyd ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol gyda'r nod o ddarparu pecynnau gofal mwy cyfannol a phersonol.
31. Yn Lloegr, mae Deddf Gofal 2014<sup>17</sup> yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol cymwys oedolyn, gan ddibynnu ar amgylchiadau ariannol. Mae'n gwreiddio gofal sy'n canolbwyntio ar y person fel y dull 'diofyn', gan roi dyletswydd ar gynghorau i neilltuo cyllideb bersonol i'r rheini sy'n gymwys i gael cymorth er mwyn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i'r unigolyn dros ei ofal.
32. Dechreuodd Grant Iechyd Thalidomid yn 2012. Cafodd £80 miliwn ei addo dros ddeng mlynedd, er mwyn cydnabod anghenion cymhleth a hynod arbenigol pobl a anffurfiwyd gan thalidomid, yn enwedig wrth iddynt heneiddio. Mae'r cyllid hwn yn eu helpu i gynnal rheolaeth dros eu hiechyd.

## **Cymorth Tai**

33. Mae Llywodraeth y DU yn gwerthfawrogi'r rôl hanfodol y mae tai â chymorth yn ei chwarae i lawer o bobl anabl. Caiff y gwaith o reoli cynlluniau tai â chymorth a chytuno ar leoliadau ar eu cyfer ei rannu rhwng awdurdodau lleol a darparwyr.
34. Mae Llywodraeth y DU yn darparu cyllid cyfalaf drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) i awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae hyn yn helpu i dalu am addasiadau i gartrefi pobl anabl sy'n gymwys, er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol ac yn ddiogel gartref. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau tai lleol i ddarparu addasiadau i bobl sy'n gymwys i gael y grant.
35. Mae Llywodraeth y DU wedi buddsoddi dros £2.7 biliwn yn y DFG (2012-13 i 2019-20) a bydd wedi darparu oddeutu 280,000 o addasiadau yn Lloegr erbyn diwedd 2018-19 (gweler paragraff 44 am fwy o wybodaeth). Comisiynodd y Llywodraeth adolygiad annibynnol o DFG (cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018) a oedd yn cynnwys 45 o argymhellion am newidiadau posibl i'r grant.
36. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ym mis Mehefin 2019, bydd y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ymgynghori ar godi safonau hygyrchedd gorfodol ar gyfer pob cartref newydd yn yr hydref.

---

<sup>17</sup><http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/contents/enacted>

37. Cronfa Llywodraeth yr Alban: mae Gofal a Thrwsio yr Alban yn galluogi pobl hŷn a phobl anabl i barhau i fyw gartref. Yn 2018/19, rhoddodd Llywodraeth yr Alban £10m yn uniongyrchol i gymdeithasau tai er mwyn darparu addasiadau i'r tenantiaid hyn.
38. Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru '*Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol*'<sup>18</sup> yn cwmpasu camau gweithredu a fydd yn galluogi mwy o bobl anabl i fyw'n annibynnol. Mae hyn yn cynnwys adolygu cymhorthion ac addasiadau, darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai a dylunio a chyflwyno tai fforddiadwy newydd.
39. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £27m y flwyddyn i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i gefnogi pobl anabl yng Nghymru i barhau i fyw'n annibynnol, a gefnogir yn gynt gan y Gronfa Byw'n Annibynnol.
40. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu addasiadau tai er mwyn sicrhau y gall pobl anabl a phobl hŷn fyw yn ddiogel ac yn annibynnol ledled Cymru gan leihau'r pwysau ar wasanaethau rheng flaen. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu rhaglen Cefnogi Pobl er mwyn helpu pobl agored i niwed i ddatblygu neu gynnal eu gallu i fyw'n annibynnol.

## **Argymhelliad 114d**

Sicrhau bod cyllidebau cyhoeddus yn ystyried hawliau pobl anabl; bod dyraniadau cyllidebol digonol ar gael i dalu am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â byw gydag anabledd, a bod mesurau lliniaru priodol - gyda dyraniadau cyllidebol priodol - ar waith ar gyfer pobl anabl y mae mesurau cyni yn effeithio arnynt.

41. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod costau ychwanegol byw gydag anabledd ac mae'n ymrwymedig i ddarparu cymorth ariannol i'r rheini sydd ei angen. Bydd Llywodraeth y DU yn gwario dros £55bn eleni (2019-20) ar fudd-daliadau i gefnogi pobl anabl a'r rheini â chyflyrau iechyd – mwy nag erioed o'r blaen. Yn 2019-20, mae gwariant wedi cynyddu mwy na £10bn ers 2010 (sydd gyfwerth ag oddeutu 2.5% o gynnyrch domestig gros a thros 6% o wariant y Llywodraeth) a bydd y gwariant ar fudd-daliadau anabledd yn uwch mewn termau real nag yn 2010 ar gyfer pob blwyddyn o'r rhagolwg, hyd at 2023/24 ar hyn o bryd. Eleni (2019/20), bydd gwariant ar y prif fudd-daliadau anabledd - PIP, DLA a Lwfans Gweini (AA) - dros £6bn yn uwch nag yn 2010, yr uchaf erioed.
42. Er mwyn cadw pobl i symud a'u galluogi i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas, mae Cynllun Motability<sup>19</sup> yn caniatáu i bobl anabl gymwys brydlesu car, sgwter

---

<sup>18</sup><https://llyw.cymru/gweithredu-ar-abledd-hawl-i-fyw-annibynnol>

<sup>19</sup><https://www.motability.co.uk/>

neu gadair olwyn â phŵer newydd drwy ddefnyddio elfen o'u budd-daliadau<sup>20</sup>. Cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad (Rhagfyr 2018) ar y Cynllun Motability ac argymhellodd y dylai'r Llywodraeth adolygu'r gwerth y mae'r cynllun yn ei gynnig, yng ngoleuni ei amcanion ar gyfer lwfansau symudedd. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhellion hyn a bydd yn ymateb maes o law.<sup>21</sup>

43. Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd Motability yn darparu cymorth ariannol sylweddol er mwyn cynorthwyo pobl anabl mewn tri maes:

- £1,000 i gwsmeriaid y Cynllun Motability sy'n colli eu cymhwysedd ar gyfer y Cynllun o ganlyniad i ailasesiad megis adolygiad PIP i PIP;
- Grantiau i ariannu cyfraniadau personol unigolion at AtW; a
- Cyflymu'r rhaglen bresennol sydd ar waith gyda'r Gronfa Teuluoedd<sup>22</sup> er mwyn helpu llawer mwy o deuluoedd sydd â phlant dan dair oed ag anabledd difrifol i fanteisio ar gymorth symudedd.

Er bod DWP wedi gweithio'n agos gyda Motability i ddylunio'r mentrau hyn, Motability a'i Fwrdd o Lywodraethwyr sy'n gyfrifol am eu cyflwyno.

44. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi mynediad i Gynghorau at hyd at £3.9 biliwn yn fwy o gyllid dynodedig ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn 2019-20<sup>23</sup>. Mae hyn yn cynnwys £240 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn lleddfu pwysau'r gaeaf ar y GIG. Mae £410 miliwn ychwanegol hefyd ar gael ar gyfer 2019-20 er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau ar ofal cymdeithasol i blant ac oedolion, gan gynnwys pobl anabl, ac mae gan y DFG £505 miliwn ar gael yn ystod 2019-20 er mwyn helpu i wneud cartrefi yn fwy addas i'r rheini sy'n gymwys i gael y grant. Mae'r Llywodraeth am i awdurdodau lleol barhau i rannu cyllid grant o'r Gronfa Gofal Gwell ddiwygiedig, cyllid Pwysau'r Gaeaf a'r DFG, a gallant wneud cyfraniadau gwirfoddol hefyd. Yn 2017/18, nodwyd bod oddeutu traean o wariant net cyfredol llywodraeth leol ar ofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei wario ar bobl ag anabledd dysgu.

45. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n canolbwyntio ar y person. Ers 2015, mae'r Gronfa Gofal Gwell wedi llywio'r gwaith o wella integreiddiad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Er

---

<sup>20</sup> Mae hyn yn cynnwys elfen symudedd cyfradd uwch y Lwfans Byw i'r Anabl, elfen symudedd cyfradd uwch taliadau PIP, Atodiad Symudedd y Pensiwn Rhyfel neu ddyfarniad Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

<sup>21</sup> <https://www.nao.org.uk/press-release/the-motability-scheme/>

<sup>22</sup> [www.familyfund.org.uk](http://www.familyfund.org.uk)

<sup>23</sup> Yn gyffredinol, nid yw cyllid llywodraeth leol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion wedi'i neilltuo ac mae'n dod o amrywiaeth o ffynonellau – y Dreth Gyngor, Ardrethi Busnes a Gedwir, a Grant Cynnal Refeniw yn bennaf. Ers yr Adolygiad o Wariant yn 2015, mae ffynonellau cyllid dynodedig wedi bod ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion hefyd.

mwyn cefnogi cynllunio ar y cyd mewn ardaloedd lleol, gwnaethom gyhoeddi Fframwaith Polisi'r Gronfa Gofal Gwell 2019-20<sup>24</sup> ym mis Ebrill 2019.

46. Er bod nawdd cymdeithasol yn fater datganoledig yng Ngogledd Iwerddon, mae'r system budd-daliadau yn cyfateb â'r hyn a gaiff ei oruchwylio gan DWP yn gyffredinol. Yn 2017/18, gwariwyd ychydig llai nag £1.3bn yng Ngogledd Iwerddon ar ddarparu cymorth drwy fudd-daliadau anabledd; AA, DLA a PIP. Diben y budd-daliadau hyn yw cyfrannu at y costau ychwanegol a wynebir gan unigolion â'r rhwystrau mwyaf i gyfranogiad mewn bywyd.

## **Argymhelliad 114e**

Cyflwyno'r holl addasiadau angenrheidiol er mwyn gwneud yr holl wybodaeth, gohebiaeth a gweithdrefnau gweinyddol a chyfreithiol mewn perthynas â hawliadau nawdd cymdeithasol, cynlluniau byw'n annibynnol a gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â chyflogaeth/diweithdra yn gwbl hygyrch i bob person ag anableddau.

47. O dan Adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd ar bob sefydliad, gan gynnwys Llywodraeth y DU, i wneud addasiadau rhesymol wrth ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl wybodaeth, gohebiaeth a gweithrediadau yn gwbl hygyrch i bobl anabl.

48. Mae Llywodraeth y DU am sicrhau bod gwasanaethau digidol yn hygyrch i bawb a sicrhau bod mynediad mwy cyfartal at wybodaeth a gwasanaethau'r Llywodraeth.

49. Ym mis Medi 2018, cyflwynodd Llywodraeth y DU Reoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018<sup>25</sup>. Nod y rheoliadau hyn yw gwella mynediad at wasanaethau a gwybodaeth gyhoeddus y DU ar-lein, yn enwedig i bobl anabl a phobl hŷn.

50. Yn unol â'r rheoliadau, mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn cymryd mesurau i wella hygyrchedd eu gwasanaethau digidol i safon benodol. Yn ogystal, bydd angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad yn amlinellu hygyrchedd gwasanaethau a gwybodaeth sydd ar gael drwy eu gwefannau a'u cymwysiadau symudol. Mae'r rheoliadau yn adeiladu ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb bresennol gan ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr anabl adrodd ar faterion ynghylch hygyrchedd gwefannau'r sector cyhoeddus.

51. Bydd Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth yn darparu swyddogaeth fonitro gymesur a chywirol er mwyn asesu sampl o wefannau a chymwysiadau

---

<sup>24</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/795314/Better\\_Care\\_Fund\\_2019-20\\_Policy\\_Framework.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/795314/Better_Care_Fund_2019-20_Policy_Framework.pdf)

<sup>25</sup><http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2018/852/contents/made>

symudol y sector cyhoeddus. Cytunir ar y sampl hwn gyda grŵp annibynnol o randdeiliaid cenedlaethol, gan gynnwys cynrychiolwyr pobl anabl.

52. Mae Safon Gwybodaeth Hygyrch y Llywodraeth<sup>26</sup> yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol roi gwybodaeth i bobl anabl ar ffurf y gallant ei deall a'r cymorth cyfathrebu sydd ei angen arnynt.
53. Sefydlwyd y Tasglu Gweinidogol ar Fformatau Amgen ym mis Ionawr 2016 i gefnogi DWP i ddeall sut y gall pobl anabl fod ag anghenion amgen wrth gyrchu gwybodaeth i gwsmeriaid. Mae'r aelodau yn dod â thystiolaeth o wasanaeth gwael at sylw'r Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith a swyddogion DWP. Yna bydd DWP yn profi ac yn treialu syniadau, cynhyrchion a gweithdrefnau ar gyfer gwella. Mae'r aelodau yn cynnwys pobl o sefydliadau cenedlaethol a lleol sy'n adlewyrchu ystod eang o grwpiau cwsmeriaid anabl DWP.
54. Mae'r Tasglu wedi cefnogi DWP i wneud nifer o welliannau, gan gynnwys datblygu a phrofi deunyddiau Hawdd eu Darllen<sup>27</sup> a fideos laith Arwyddion Prydain. O ganlyniad, mae DWP wedi cyhoeddi cyfres o bum fideo gyda'r nod o helpu pobl i ddeall PIP ac mae gan bob un gyfieithiad laith Arwyddion Prydain ac laith Arwyddion Iwerddon. Cyhoeddodd DWP ei chyfres gyntaf o gynhyrchion Hawdd eu Darllen ym mis Ionawr 2019 hefyd, yn unol â safonau deunyddiau Hawdd eu Darllen ar draws y Llywodraeth.
55. Yn yr Alban, mae Deddf Nawdd Cymdeithasol (yr Alban) 2018<sup>28</sup> yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion yr Alban ystyried pwysigrwydd cyfathrebu mewn ffordd gynhwysol, gan sicrhau bod pobl ag anawsterau cyfathrebu yn gallu cyfathrebu, derbyn gwybodaeth a mynegi eu hunain mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion.
56. Mae Llywodraeth yr Alban yn sicrhau bod llythyrau, ffurflenni, canllawiau ar-lein a deunyddiau cyfathrebu yn cael eu hysgrifennu ar gyfer oedran darllen o 9 a bod yr holl gynnwys ar-lein yn addas i'w ddefnyddio ar lwyfannau meddalwedd darllen sgrîn. Mae'r holl lythyrau, gwybodaeth a chanllawiau ar gael mewn fformatau hygyrch.
57. Mae gan Lywodraeth yr Alban Wasanaeth Cyfieithu dros Fideo ar gyfer laith Arwyddion Prydain sy'n darparu dehonglwyr ar gyfer pobl fyddarddall, Text Relay a gwasanaethau cymryd nodiadau electronig. Mae'r gwasanaeth hwn

---

<sup>26</sup><https://www.england.nhs.uk/ourwork/accessibleinfo/>

<sup>27</sup><https://www.gov.uk/government/publications/inclusive-communication/accessible-communication-formats#easy-read-and-makaton>

<sup>28</sup><http://www.legislation.gov.uk/asp/2018/9/contents/enacted>

wedi datblygu i gynnwys mynediad at bob rhif cenedlaethol ac mae ar gael bob amser.

## Argymhelliad 114f

Sicrhau mynediad at gyfiawnder drwy ddarparu cyngor a chymorth cyfreithiol priodol, a chan gynnwys llety rhesymol a gweithdrefnol i bobl anabl sy'n ceisio iawn am yr achos honedig o effeithio ar eu hawliau a gaiff eu cwmpasu yn yr adroddiad hwn<sup>29</sup>.

58. Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi ac yn cynnal y gyfraith, gan sicrhau cyfiawnder i bawb. O dan Ran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 (LASPO)<sup>30</sup>, gellir darparu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion sy'n ymwneud â gofal cymunedol, Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND), gwahaniaethu ar sail anabledd, iechyd meddwl a galluedd meddyliol, yn amodol ar p'un a yw'r ymgeiswyr yn bodloni profion modd a theilyngdod statudol.
59. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Ran 1 *Adolygiad Ôl-weithredu LASPO*<sup>31</sup> ym mis Chwefror 2019. Gwnaeth yr Adolygiad asesiad gwrthrychol o effaith newidiadau i gymorth cyfreithiol yn sgil Deddf LASPO yn erbyn ei hamcanion gwreiddiol. Cyhoeddodd y Llywodraeth y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cefnogaeth Gyfreithiol<sup>32</sup> (y Cynllun Gweithredu), gan adeiladu ar dystiolaeth a gafodd ei chlywed fel rhan o'r Adolygiad Ôl-weithredu a nodi cyfeiriad y Llywodraeth yn y dyfodol i sicrhau cyfiawnder.
60. Diddymodd y Cynllun Gweithredu'r gofyniad i ymgeiswyr mewn achosion dyled, gwahaniaethu a SEND geisio cyngor drwy wasanaeth dros y ffôn yn y lle cyntaf, ac aildechrau'r mynediad uniongyrchol at gyngor cyfreithiol wyneb yn wyneb. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<sup>33</sup> (EHRC), sef rheoleiddiwr annibynnol Deddf Cydraddoldeb 2010, yn cefnogi'r newidiadau hyn.
61. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth y DU y dylai mathau ategol o gefnogaeth gyfreithiol ychwanegu at wasanaethau cyfreithiol a ariennir gan drethdalwyr drwy gymorth cyfreithiol, lle y bo'n briodol. Bydd y mathau mwyaf effeithiol sy'n cefnogi datrys problemau cyfreithiol pobl yn gynharach yn cael eu harchwilio. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn meithrin diwylliant o arloesedd wrth gyflawni ac yn cynyddu mynediad at gefnogaeth gyfreithiol gan fod yn ystyriol o'r bobl hynny nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau digidol.

---

<sup>29</sup> adroddiad ymchwiliad 2016: <https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G17/326/14/PDF/G1732614.pdf?OpenElement>

<sup>30</sup>Ceir copi o'r ddeddfwriaeth hon [yma](#).

<sup>31</sup>Ceir copi o Adolygiad Ôl-weithredu LASPO [yma](#).

<sup>32</sup>Ceir copi o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Cefnogaeth Gyfreithiol [yma](#).

<sup>33</sup>Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith a'r prosiectau a gwblhawyd gan EHRC [yma](#).

62. Mae'r Llywodraeth wedi lansio Grŵp Cynghori Mynediad at Gyfiawnder er mwyn dod ag arbenigedd ynghyd a llywio'r broses o ymchwilio a chasglu tystiolaeth. Bydd hyn yn helpu i nodi ac arwain ymchwil yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu system cefnogaeth gyfreithiol gynhwysol, effeithiol a chymesur.
63. Mae EHRC wedi cyflwyno Prosiect Cefnogaeth Gyfreithiol er mwyn cynyddu mynediad at gyfiawnder i bobl sy'n profi gwahaniaethu ar sail anabled. Mae EHRC yn cynyddu ei allu cyfreithiol i gynghori ar achosion gwahaniaethu ac mae'n datblygu ymchwiliad i addasiadau rhesymol i'r system cyfiawnder troseddol ar gyfer diffynyddion sydd â chyflyrau iechyd meddwl, anabledau dysgu, cyflyrau niwro-amrywiol ac anaf i'r ymennydd ar ôl geni.
64. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i ddarparu cymorth byrdymor lle mae Nawdd Cymdeithasol yr Alban wedi penderfynu lleihau neu atal taliad parhaus, ac mae'r penderfyniad hwnnw yn destun cais am ailbenderfyniad neu apêl. Felly bydd person yn parhau i dderbyn yr un lefel o daliad nes y penderfynir ar ganlyniad ei achos, gan sicrhau nad yw pobl yn cael eu hannog i beidio â herio penderfyniadau neu gyrchu cyfiawnder gweinyddol gan y byddent yn cael incwm llai.
65. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bobl yr hawl i wasanaeth eirioli annibynnol os oes angen cymorth eiriolwr arnynt, oherwydd eu hanabled, i ymgysylltu'n effeithiol â system nawdd cymdeithasol yr Alban. Gall unigolion ddod â chefnogwr i drafodaethau am eu hawliadau sy'n gallu gwneud sylwadau ar eu rhan.
66. Yn 2018/19, rhoddodd Llywodraeth Cymru £6m o gyllid grant i brosiectau sy'n darparu cyngor lles cymdeithasol sy'n seiliedig ar hawliau ar amrywiaeth o faterion, ac aeth llawer o'r swm hwn tuag at gefnogi pobl anabl. Yn ystod y flwyddyn, helpodd prosiectau cynghori dros 77,000 o bobl i sicrhau dros £53m mewn enillion incwm.

## **Argymhelliad 114g**

Mynd ati i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl anabl drwy eu mudiadau cynrychioliadol a rhoi sylw dyledus i'w barn wrth ddylunio, gweithredu, monitro a gwerthuso unrhyw ddeddfwriaeth, polisi neu gam gweithredu rhaglennol sy'n ymwneud â'r hawliau a drafodir yn yr adroddiad hwn<sup>34</sup>.

---

<sup>34</sup> adroddiad ymchwiliad 2016: <https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G17/326/14/PDF/G1732614.pdf?OpenElement>

67. Mae'r DU yn cydnabod gwerth cyfranogiad pobl anabl wrth gynllunio a dylunio polisiau. Gan fod cydraddoldeb wedi'i brif ffrydio ar draws y Llywodraeth, mae pob adran yn gyfrifol am ymgynghori ac ymgysylltu â phobl anabl a'u mudiadau ar faterion polisi sy'n effeithio arnynt.

68. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn sefydlu uned anabledd newydd yn Swyddfa'r Cabinet er mwyn cael agwedd o'r newydd at anabledd yng nghalon y Llywodraeth a mynd i'r afael ag anghyfiawnder sylweddol gwahaniaethu ar sail anabledd. Bydd yr uned yn gweithio'n agos gyda phobl anabl i ddatblygu ymagwedd newydd at anabledd ar draws y Llywodraeth, gan gymryd camau gweithredu parhaus a thrawsnewidiol. Bydd y Llywodraeth yn comisiynu gwaith ymchwil er mwyn sicrhau bod profiadau gwirioneddol pobl anabl yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisiau nesaf y Llywodraeth.

69. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei fwriad i lansio'r Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhanbarthol a hysbysebodd yn gyhoeddus am aelodau a chadeiryddion. Bydd y Rhwydwaith yn cynnig cyfle i bobl anabl a'u mudiadau lleol mewn naw rhanbarth yn Lloegr ymgysylltu â Llywodraeth ganolog ar faterion sy'n effeithio arnynt. Bydd y Rhwydwaith yn ategu gwaith ymgysylltu presennol a pharhaus â phobl anabl a mudiadau anabledd ar draws y Llywodraeth a bydd yn gwella ymgysylltu ar lefel leol.

70. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn polisiau newydd neu newidiadau i bolisiau arfaethedig neu bobl y gallai hyn effeithio arnynt. Mae ymgynghoriadau â phobl anabl a'u mudiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

a) Cynhaliodd Llywodraeth y DU ddigwyddiad bord gron gyda phobl anabl er mwyn llywio ymgynghoriad ar doiledau Changing Places. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y trothwyon lle bydd y cyfleusterau yn orfodol mewn adeiladau newydd neu adeiladau sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol.

b) Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad eang yn edrych ar y gwaharddiad ar ddisbarthu a/neu werthu gwellt plastig, trowyr diodydd plastig a ffyn cotwm plastig. O ganlyniad, cafodd y polisi ei ddiwygio er mwyn caniatáu eithriadau i'r gwaharddiad ar wellt plastig fel y bydd gwellt plastig yn parhau i fod ar gael drwy fferyllfeydd cofrestredig (mewn siopau ac ar-lein) ac mewn sefydliadau arlwyo i'w defnyddio gan bobl anabl sy'n dibynnu arnynt i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol. Caiff y polisi ei adolygu er mwyn asesu ei effaith flwyddyn ar ôl i'r gwaharddiad ddod i rym.



71. Cynhelir nifer o fforymau gyda phobl anabl a'u mudiadau ar draws y Llywodraeth er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ar farn pobl anabl ac yn rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith ar eu cyfer, gan gynnwys:
- a) Caiff y Cynghrair Iechyd a Lles (Cynghrair HW) mewn Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol ei reoli ar y cyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a GIG Lloegr.
  - b) Pwyllgor Cynghori ar Drafnidiaeth i Bobl Anabl (DPTAC) a'r Grŵp Strategaeth Trafnidiaeth Gynhwysol (ITSG). Mae'r ITSG yn gweithredu fel seinfwrdd i'r Llywodraeth wrth iddo ddatblygu ymyriadau polisi ar gyfer trafndiaeth gynhwysol. DPTAC yw cynghorydd statudol y Llywodraeth ar anghenion trafndiaeth pobl anabl.
  - c) Mae Fforymau Rhieni a Gofalwyr (PCF) yn cynnwys rhieni sydd â phlant â SEND. Mae PCF ym mhob ardal leol yn Lloegr ac maent yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar bolisiau SEND lleol a'r ffordd y cânt eu gweithredu.
72. Mae Siarter Nawdd Cymdeithasol yr Alban<sup>35</sup> yn cysylltu'r egwyddorion yn Neddf Nawdd Cymdeithasol (yr Alban) 2018 â pherfformiad y system Nawdd Cymdeithasol. Cafodd grŵp craidd, gan gynnwys pobl anabl, ei recriwtio i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r siarter. Cynhaliwyd arolwg a chyfweliadau ar gyfer y bobl nad oeddent yn gallu teithio. Mae Llywodraeth yr Alban yn ymrwymedig i ddatblygu fframwaith mesur gyda phobl anabl er mwyn gwerthuso'r system Nawdd Cymdeithasol ac adrodd arni.
73. Mae gan Lywodraeth Cymru Fforwm Cydraddoldeb Anabledd sy'n hwyluso ymgysylltiad uniongyrchol â phobl anabl a'u mudiadau. Mae'r fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (sydd â chyfrifoldeb portffolio dros gydraddoldeb) yw'r Cadeirydd.
74. Mae'r grŵp llywio sy'n cynnwys mudiadau anabledd wedi bod yn goruchwylio'r broses o ddatblygu Fframwaith Llywodraeth Cymru *Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol* (i'w gyhoeddi yn haf 2019). Yn ystod y broses ddatblygu, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu ledled Cymru er mwyn ceisio barn pobl anabl a'u mudiadau.

## Argymhelliad 114h

Cymryd mesurau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw ystrydebau a rhagfarnau negyddol a gwahaniaethol yn erbyn pobl anabl yn gyhoeddus ac yn y cyfryngau, gan gynnwys bod dibynnu ar fudd-daliadau ei hun yn annog pobl i beidio â chwilio am swydd; rhoi

---

<sup>35</sup>[https://dgxmvz0tqkndr.cloudfront.net/production/images/general/Our-Charter\\_fixed.pdf](https://dgxmvz0tqkndr.cloudfront.net/production/images/general/Our-Charter_fixed.pdf)

ymgyrchoedd cyfryngau torfol eang ar waith, mewn ymgynghoriad â mudiadau sy'n cynrychioli pobl anabl (yn enwedig y rheini y mae'r agenda diwygio lles yn effeithio arnynt), er mwyn eu hyrwyddo fel deiliaid hawlio llawn, yn unol â'r Confensiwn; a mabwysiadu mesurau i ymdrin â chwynion gan bobl anabl am aflonyddu a throeddau casineb, ymchwilio i'r honiadau hyn yn brydlon, dwyn cyflawnwyr i gyfrif a darparu iawndal teg a phriodol i ddiodefswyr.

### **Troseddau Casineb, Aflonyddu a Bwlio Ar-lein**

75. Trosedd gasineb yw unrhyw dramgwydd troseddol a gaiff ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil, tueddfryd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol (boed yn wir neu'n dybiedig) yn nhyb y dioddefwr neu unrhyw berson arall. Mae Llywodraeth y DU yn cymryd pob math o droseddau casineb o ddifrif, gan gynnwys rhai sy'n targedu pobl anabl. Mae'r fframwaith deddfwriaethol i fynd i'r afael â throeddau casineb yn cynnwys darpariaethau i'r llys gynyddu deddfryd pan gymhellwyd y tramgwydd gan elyniaeth tuag at anabledd person. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad llawn o ddeddfwriaeth ynglŷn â throeddau casineb, gan gynnwys cwmpas a dull gweithredu cyfredol darpariaethau deddfwriaethol troseddau casineb, er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol o hyd.
76. Yn 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth fersiwn ddiwygiedig o *Gynllun Gweithredu ar Droseddau Casineb 2016*<sup>36</sup>. Mae'n amlinellu'r cynnydd yn erbyn Cynllun 2016 ac yn cynnwys rhagor o fanylion am beth arall y gellir ei wneud i fynd i'r afael â throeddau casineb, gan gynnwys cynyddu gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid anabl ac ystyried argymhellion a wnaed mewn adroddiadau rhanddeiliaid.
77. Mae'r Llywodraeth wedi creu cynlluniau i wneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein yn y *Papur Gwyn Niwed Ar-lein*<sup>37</sup> (cyhoeddwyd 2019), sy'n destun ymgynghoriad. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu sefydlu mewn cyfraith ddyletswydd gofal newydd ar gwmnïau tuag at eu defnyddwyr, wedi'i goruchwyllo gan reoleiddiwr annibynnol. Bydd y rheoleiddiwr hwn yn gosod safonau diogelwch clir, wedi'u cefnogi gan ofynion adrodd gorfodol a phwerau gorfodi effeithiol, gan sicrhau bod cwmnïau yn cael eu dwyn i gyfrif.
78. Er mwyn gwella diogelwch ar-lein, bydd y Llywodraeth yn datblygu strategaeth llythrennedd cyfryngau ar-lein newydd, gan ddefnyddio dull gweithredu cydlynol a strategol i addysgu llythrennedd cyfryngau ar-lein a chodi ymwybyddiaeth ohono.

---

<sup>36</sup><https://www.gov.uk/government/news/hate-crime-plan-refreshed-to-protect-victims-and-promote-shared-values>

<sup>37</sup><https://www.gov.uk/government/consultations/online-harms-white-paper/online-harms-white-paper-executive-summary--2>

79. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd i'r afael â throeddau casineb mewn partneriaeth â Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb<sup>38</sup> (HCCJBC). Mae HCCJBC yn gweithio gyda'r Fforwm Cydraddoldeb Anabledd, wedi'i gynnull gan Lywodraeth Cymru, er mwyn archwilio ffyrdd o wella prosesau adrodd am droseddau casineb sy'n ymwneud ag anabledd, cefnogi dioddefwyr a dod â chyflawnwyr o flaen eu gwell.
80. Yn yr Alban, mae rhaglen i fynd i'r afael â throeddau casineb a meithrin cydlynid cymunedol. Mae Grŵp Gweithredu a arweinir gan Weinidogion yn llywio'r gwaith, gan gynnwys lansio ymgyrch troseddau casineb er mwyn annog tystion i roi gwybod amdanynt. Ym mis Tachwedd 2018, lansiodd Llywodraeth yr Alban ymgyngoriad cyhoeddus ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn bil troseddau casineb newydd. Cyhoeddir adroddiad dilynol yn ystod haf 2019.
81. Mae ymchwil yn dangos bod cyfraddau'r disgyblion anabl sy'n adrodd am achosion o fwlio yn sylweddol uwch. Mae'r Llywodraeth wedi anfon neges glir i ysgolion nad yw bwlio yn dderbyniol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod gan bob ysgol bolisi ymddygiad sy'n atal bwlio.
82. Mae Llywodraeth y DU yn darparu dros £2.8m o gyllid o 2016 i 2020 i sefydliadau gwrthfwlio gefnogi ysgolion i fynd i'r afael â bwlio. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys prosiectau sy'n targedu achosion o fwlio grwpiau penodol, megis y rhai â SEND, ynghyd â phrosiect i roi gwybod am fwlio ar-lein.

## Ymgyrchoedd

83. Ers mis Hydref 2018, mae'r Llywodraeth wedi cynnal dwy ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o droseddau casineb, gan gynnwys rhoi senarios o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, er mwyn gwneud yn glir bod y rhain yn droseddau ac na chânt eu goddef.
84. Dywed un ym mhob pedwar o bobl anabl fod agweddau negyddol gan deithwyr eraill yn eu hatal rhag defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. O ganlyniad, maent yn cymryd traean yn llai o deithiau ar drafndiaeth gyhoeddus na'r rheini heb anawsterau symudedd.<sup>39</sup> Yn sgil hyn, bydd Llywodraeth y DU yn lansio ymgyrch cyfathrebu cyhoeddus yn ystod 2019 er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion pobl anabl, yn enwedig rhai ag anableddau cudd, a thrwy hynny, gynyddu hyder pobl anabl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae gan yr ymgyrch dair cynulleidfa darged: y cyhoedd sy'n teithio, pobl anabl a gweithredwyr

---

<sup>38</sup>Y Gymraeg i Gymru

<sup>39</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/647703/disabled-peoples-travel-behaviour-and-attitudes-to-travel.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/647703/disabled-peoples-travel-behaviour-and-attitudes-to-travel.pdf)

trafnidiaeth, a dylai ymgysylltu â rhanddeiliaid anabl a dylanwadwyr allweddol yn y sector sicrhau llwyddiant.

85. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl awtistig a gofalwyr, i ddatblygu ymgyrch i wella dealltwriaeth y cyhoedd o awtistiaeth, gyda'r nod o greu cymdeithas sy'n fwy cynhwysol y gall pobl awtistig gyfranogi'n llawn ynddi.
86. Cyhoeddwyd 'The Challenge on Dementia 2020' yn 2015 gyda'r nod o wneud Lloegr yn arweinydd y byd ym maes gofal ac ymchwil dementia ac ymwybyddiaeth ohono. Rydym yn ymrwymedig i gynnwys pobl â phrofiad gwirioneddol o ddementia wrth ddylunio polisiau a'u rhoi ar waith. O fis Ebrill 2019, mae dros 2.8m o Ffrindiau Dementia ac mae 356 o ardaloedd yn Lloegr wedi ymrwmo i fod yn Gymunedau sy'n Ystyriol o Ddementia, gan alluogi pobl i fyw'n dda gyda dementia.

### **Argymhelliad 114i**

Wrth roi deddfwriaeth, polisiau a rhaglenni ar waith, sicrhau y rhoddir sylw arbennig i bobl anabl sy'n byw mewn tlodi neu ar incwm isel, pobl anabl sydd â risg uwch o gael eu heithrio, megis pobl ag anabledau deallusol, seicolgol neu luosog, menywod, plant a phobl hŷn sy'n anabl; dylid rhoi'r mesurau hyn ar waith o fewn cyfundrefnau cyfraniadol ac anghyfraniadol.

87. Fel yr esboniwyd yn ein hymateb i 114b, cred Llywodraeth y DU fod PSED, fel y nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn darparu ffordd o nodi effeithiau anfwriadol neu anghyfartal polisiau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl.
88. Yn 2019, ymrwymodd Gweinidogion yr Alban i adolygu effeithiolrwydd y modd y caiff PSED ei roi ar waith yn yr Alban, gan gynnwys rheoliadau a wnaed ganddynt o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### **Argymhelliad 114j**

Creu dull a system o ddangosyddion sy'n seiliedig ar hawliau dynol er mwyn monitro'n barhaus effaith y polisiau a'r rhaglenni gwahanol sy'n ymwneud â hawl pobl anabl i ddiogelwch cymdeithasol a safon byw ddigonol, yr hawl i fyw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn y gymuned, a'r hawl i weithio, a'u mwynhâd o'r hawliau hyn, mewn ymgynghoriad agos â phobl anabl a'u mudiadau cynrychioliadol ym mhob rhanbarth a gwlad sy'n cydffurfio â Pharti'r Wladwriaeth.

89. Sefydlwyd y Grŵp Rhyngweinidogol ar Anabledd a'r Gymdeithas (IMG) yng ngwanwyn 2018 er mwyn llywio camau gweithredu cydgysylltiedig ym mhob rhan o'r Llywodraeth i chwalu'r rhwystrau i gyfranogiad llawn mewn cymdeithas

sy'n wynebu pobl anabl. Mae Llywodraeth y DU yn benderfynol o greu cymdeithas gynhwysol, ac mae'r IMG yn chwarae rôl bwysig yn hyn gan ei fod yn nodi ffyrdd y gall y Llywodraeth ddatblygu gwelliannau sy'n effeithio ar bobl anabl ac felly barhau i wneud cynnydd o ran rhoi UNCRPD ar waith.

90. Bydd y dull trawslywodraethol newydd o ymdrin ag anabledd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 yn sefydlu tîm yn Swyddfa'r Cabinet a bydd yn cynnwys trosglwyddo'r Swyddfa Materion Anabledd o DWP i Swyddfa'r Cabinet. Mae'r newid hwn yn cydnabod bod pobl anabl yn wynebu rhwystrau mewn amrywiaeth eang o feysydd ac felly mae camau gweithredu trawslywodraethol cydgysylltiedig yn hanfodol.
91. Yn ogystal, ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymrwymiad i atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth ar anabledd a gwella gwaith ymgysylltu â phobl anabl a'u mudiadau. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn datblygu dangosfwrdd canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl anabl er mwyn cynyddu tryloywder ac atebolrwydd, a llywio camau gweithredu sy'n canolbwyntio ar chwalu'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu. Bydd y Llywodraeth hefyd yn comisiynu gwaith ymchwil newydd gan sicrhau bod profiadau gwirioneddol pobl anabl yn dylanwadu'n uniongyrchol ar bolisïau nesaf y Llywodraeth.
92. Fel yr amlinellwyd eisoes yn ein hymateb o dan 114b ac 114i, mae'r PSED yn darparu ffordd o nodi effeithiau anfwriadol neu anghyfartal polisïau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl.
93. Yn unol â'i ddyletswydd i fonitro a gorfodi Deddf Cydraddoldeb 2010, mae EHRC wedi bod yn rhan allweddol o ddarparu adnoddau a chymorth mewn achosion gwahaniaethu sydd ag arwyddocâd strategol neu ehangach. Mae EHRC yn cymryd camau gweithredu i wella'r ffordd y caiff y ddyletswydd addasiadau rhesymol<sup>40</sup> ei gorfodi ar gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau nad ydynt yn cydymffurfio.
94. Gwnaeth Prif Weinidog yr Alban gynnwll Grŵp Cynghori Annibynnol ar Arweinyddiaeth Hawliau Dynol<sup>41</sup> a argymhellodd ddeddfwriaeth ym mis Rhagfyr 2018 i greu fframwaith hawliau dynol newydd. Mae tasglu cenedlaethol yn cael ei greu er mwyn datblygu argymhellion allweddol y grŵp<sup>42</sup>.
95. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau i gryfhau a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gan gynnwys opsiynau i wella'r ffordd y caiff deddfwriaeth sy'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys

---

<sup>40</sup><https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/20>

<sup>41</sup><https://humanrightsleadership.scot/>

<sup>42</sup><https://news.gov.scot/news/new-national-taskforce-to-lead-on-human-rights-in-scotland>

pobl anabl, ei monitro a'i gwerthuso. Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau rhan un o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd erbyn diwedd 2019, sy'n gam gweithredu allweddol i wella mesurau diogelu ar gyfer pobl anabl.